Hydref 2020.qxp_Layout 1 09/09/2020 16:39 Page 1

YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'
CYF. 42. RHIF 5 HYDREF 2020 50c

# ANRHYDEDDU CAPLAN Y PLANT



*David Williams a choeden weddïau*



*Safle weddi yr Islamiaid yn Ysbyty'r Plant*



*Ystafell weddi Ysbyty'r Plant yn Alder Hey*

## ARCHESGOB CAERGAINT YN ANRHYDEDDU Y PARCH. DAVID WILLIAMS, YSBYTY ALDER HEY

Llongyfarchiadau i'r Parchedig David Williams ar dderbyn un o wobrau mawreddog Palas Lambeth a ddewisir yn flynyddol gan Archesgob Caergaint o'r holl aelodau ac offeiriaid yr Eglwys Anglicanaidd fyd-eang. Rhoddir Gwobr Alphege am efengylu a thystio. Ælfheah (953 – 1012), neu a elwir Alphege dyddiau yma, yn enwog am ei dduwioldeb a sancteiddrwydd.


Mae dyfyniad y wobr yn canmol gwaith David gyda'r plant a'u teuluoedd fel Caplan yn Ysbyty Alder Hey dros y ddau ddegawd diwethaf.


Mae David yn fab i Evan a Bet Williams a oedd yn aelodau selog yn Eglwys Stanley Road, Bootle ac mae'n cydnabod bod ei weinidog, y Parchedig William Jones, wedi dylanwadu'n fawr ar ei flynyddoedd cynnar. Cyfarfod Cenhadol a gynhaliwyd yn Eglwys St Hilda's, Hunts Cross a newidiodd ei fywyd a bywyd ei wraig gefnogol iawn, Lin. Yno, fe heriwyd y ddau ohonyn nhw gan neges Datguddiad 3:16 "Felly oherwydd eich bod yn llugoer - ddim yn boeth nac yn oer—rydw i ar fin eich poeri allan o fy ngheg!" rhan o'r neges i'r Eglwys yn Laodicea.

(parhad ar dudalen 2)

## CYSTADLEUAETH LLYFR Y FLWYDDYN 2020

### Cyfrol Lerpwl yn cael cryn sylw




*Cofiant T. Gwynn Jones a enillodd yn yr adran*

Golygyddol

# YMBIL AM WAREDIGAETH

## gan D. Ben Rees

Ni allaf y tro hwn eto ond nodi eich bod yn fy meddwl a'm gweddïau, pob un ohonoch sydd yn darllen ac yn mwynhau Y*r Angor*, ac yn arbennig y cyfeillion da sydd yn llunio ysgrifau byr ond difyr sydd yn gwneud ein cylchgrawn yn dderbyniol i bobl na fu'n byw yn Lerpwl, Penbedw na Manceinion. Mae ein cynfas a'n golygon yn cwmpasu Cymru a chyflwr y byd y gosodwyd ni yn stiwardiaid arno.

Yr hyn yr wyf yn gwrando arno yn astud o ddydd i ddydd ydyw'r wybodaeth fod yna ymdrech deg yn cael ei gyflawni ym Mhrifysgolion Llundain a Rhydychen, yn Ysbyty Johns Hopkins, Baltimore a thrwy 30 o wledydd i ddod o hyd i'r feddyginiaeth a rydd inni ddyddiau gwell pan y byddwn yn medru ail gydio yn ein gweithgareddau yn y flwyddyn 2021. Ar hyn o bryd cael a chael fydd gweld Eisteddfodau'r Urdd a'r Genedlaethol y sonia rhai arbenigwyr na allwn ddisgwyl byd normal hyd hydref 2021. Gobeithio nad yw y rhain yn proffwydo'n gywir. Y gwir yw nad oes neb ohonom yn gwybod y cyfan. Ychydig a ŵyr ein gwybodusion pennaf sut mae'r feirws yn medru meddiannu un gwlad ar ôl y llall.

Cychwynodd yn Seina bell a dod atom i Lerpwl ac i Gaergybi ac i Dŷ Ddewi. Nid oes neb ohonom yn ddiogel, hen nac ifanc. Y rhai diogelaf yw plant o dan ddeg oed, ac eto mae'r ysgolion cynradd yn ofnus i gael y plant ynghyd i'r dosbarthiadau. Nid ofn ar ffeithiau ydyw'r ofn hwn ond ofn naturiol. Gweddiaf heddiw weddi Thomas à Kempis o'r 15fed ganrif ar y testun ***Rho Gymorth o Dduw:***

**Dyro'r gogoniant a'r llawenydd a ddaw o gydwybod dda, fel y gallwn ddwyn y beichiau trymaf, a bod yn siriol dan y cystuddau chwerwaf.**

**Dyro inni gariad a gras Duw, fel y gallwn ddioddef pob blinder a chaethiwed, gan ddilyn llwybrau Iesu Grist a gorfoleddu yn y groes. Amen**

# Archesgob Caergaint yn anrhydeddu y Parch. David Williams, Ysbyty Alder Hey

*(parhad o'r dudalen flaen)*

Yn dilyn eu hymrwymiad o'r newydd i ddilyn Iesu, daeth y Parch Gordon Greenwood, ficer St, Hilda's, yn ddylanwad enfawr ar eu bywydau.

Wedi llawer o weddi a thrafodaeth, ordeiniwyd David yn weinidog Anglicanaidd ym 1995 a daeth yn Gaplan yn Ysbyty Alder Hey ym 1999. Bellach ef yw'r Prif Gaplan a rheolwr y Ganolfan Gofal Ysbrydol o'r enw'r Noddfa (Sanctuary) sydd yng nghanol yr ysbyty. Fe'i cynlluniwyd i fod yn lle croesawgar a heddychlon i bobl o bob ffydd ac, yn bwysicach o bosibl, i bobl na fyddent fel rheol yn proffesu unrhyw ffydd. Yn yr ystafell Weddi mae coeden Weddi lle gall teuluoedd a chleifion adael eu gweddïau ysgrifenedig. Dyma rai o'r gweddïau a oedd ar y goeden pan euthum i ymweld â David.

"Diolch i Dduw am achub ein bachgen bach. Gobeithio y bydd yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r byd yr ydym ni'n byw ynddo."

"Annwyl Arglwydd. Gâd i hyn fod fy llawdriniaeth olaf. Amen "

"Helpwch ni drwy'r amser ofnadwy yma. Bendith Duw ar bawb sy'n achub bywydau."

Byddai rhywun yn meddwl na fyddai salwch neu farwolaeth plentyn ifanc yn gyfle i efengylu ond mae David yn teimlo mai trwy wrando ac empathi, trwy geisio cerdded ochr yn ochr â'r rhieni y gall helpu i gefnogi pobl wrth iddynt deithio ar hyd glyn cysgod amgau. I'r rhai nad ydynt yn credu unrhyw gred, mae'n gobeithio ac yn gweddïo y gall eu helpu tuag at gamau cyntaf eu ffydd. Mae'n credu fod gobaith yn hanfodol yn yr amseroedd trist ac anobeithiol hyn, er mwyn rhoi rhywfaint o olau i deuluoedd yn eu tywyllwch a'u hanobaith. Er nad yw'n proffesu fod ganddo atebion ynghylch pam mae'r plant yn cael afiechydon angeuol mae'n siarad gyda'r rhieni am y Duw y mae'n ei adnabod fel Duw cariad; nid Duw sy'n cymryd rhai bach oddi wrth eu rhieni, ond Duw sy'n eu derbyn i'w gwella pan maen nhw yn rhy sâl neu'n rhy flinedig i ddal ati. Ni all y geiriau hyn newid y sefyllfa feddygol, ond gallant ddechrau lleddfu peth o'r dicter y mae rhieni mewn profedigaeth yn ei deimlo, er mwyn caniatáu i gyfnod 'catharsis' ddechrau.

Mae hefyd yn teimlo fod bedydd blentyn wedi marwolaeth sydyn ac annisgwyl yn gysur a help enfawr i'r rhieni. Mae hyn yn rhywbeth y mae David wedi credu ynddo ers ei ddyddiau cyntaf fel Caplan. "Rwy'n gwybod", meddai David, "fod y plant yma eisoes yn ddiogel gyda'r Iesu, oherwydd mae Iesu'n dweud wrthym fod Teyrnas nefoedd yn perthyn i'r rhai bach hyn' (Matt 19:14) Nid wyf yn credu, felly, fod y bedydd yma yn bwysig er eu hiachawdwriaeth, ond mae'n bwysig i'r teulu wybod bod yr un bach wedi'i fendithio a'i fod wedi'i gydnabod fel rhan o deulu Duw. Dywedodd yr Esgob Michael Henshall, pan oedd yn Esgob Warrington, fod y dathliad hwn o fedydd yn gwbl briodol oherwydd fod bedydd yn ddathliad o fynd i fywyd newydd yng Nghrist, i'r lle y mae y rhai bach yma bellach wedi mynd iddo."

Mae'n genhadaeth a all fod yn feichus iawn yn enwedig gan fod emosiynau rhieni yn gallu bod rhai o ddicter, teimladau o frifo ac arwahanrwydd ond ar ôl ymweld ag ef yn y Ganolfan mae'n amlwg y galwyd David i'r gwaith yma gan Dduw ac fel arfer roedd dewis Duw yn un cywir.

***J.G.W. 19.8.20***

## *Y Cwis*

Oherwydd diffyg gofod bydd yn rhaid gadael canlyniadau y cwis (tudalen 6 rhifyn Awst/Medi) hyd y rhifyn nesaf.
Felly gadawer y dyddiau cau yn agored hyd 25-10-2020.

Hydref 2020.qxp_Layout 1 09/09/2020 16:39 Page 3

*ATGOFION AM*

# MEGAN PRICE MORRIS

## Dinorwig

*(Mehefin 11eg 1915 - Mehefin 23ain 2020)*

**Braint fawr i mi ar wahoddiad Golygydd yr *Angor* i lunio teyrnged i gofio Mam, a nain i Sion Wyn Morris, Waterloo un o Gymry Lerpwl. Ond beth am Megan Price Morris ei hun? a gafodd fyw i'r oedran teg o gant a phum mlwydd oed!**

**Roedd Mam yn disgrifio Dinorwig ei phlentyndod fel lle oedd yn ferw o weithgareddau amrywiol lle yr oedd yn rhaid dewis pa rai a ddewisai fynd iddynt bob noson o'r wythnos. O ran ei haddysg, cychwynnodd yn ysgol gynradd Dinorwig yn 1920. Pasiodd y "scholarship" (11+) i fynd i ysgol Brynrefail. Yr adeg honno roedd plant Dinorwig yn cerdded i'r ysgol ymhob tywydd i lawr ffordd Y Fachwen. Pan fyddai'r tywydd yn ddrwg iawn, roeddynt yn aros dros nos mewn gwahanol dai ym mhentref Brynrefail. Er ei bod yn ddisgybl pur ddisglair ac er pledio'r athrawon iddi aros, bu'n rhaid i Mam adael yr ysgol yn 15 oed i ofalu am ei mam ac am ei brawd ei hun, Abram, a oedd ag anghenion arbennig. Pan oedd ei chwaer Alice yn ddigon hen, fe wnaeth hi yr un gwaith yn gofalu am y teulu drwy ei bywyd. Ar ôl i Anti Alice gymryd drosodd y gwaith domestig, aeth Mam i weini i Ffestiniog a gofalu am hen wraig yno.**

**Priododd Mam a'm tad yng Nghaernarfon gan nad oedd gan Gapel Sardis drwydded i gynnal priodasau, a buont yn byw yn Pant Sardis, lle cefais i fy ngeni, cyn symud i Tŷ Capel Sardis i fod yn ofalwyr a glanhawr y capel y Bedyddwyr, a gofalu am bregethwyr a ddeuai bryd hynny i aros dros nos ar y Sadwrn a chael eu bwydo ar y Sul. Doedd dim tâl i gael, ond roedd y tŷ yn rhydd o orfod talu rhent. Deuai'r pregethwyr o bob rhan o Gymru a mwynheai Mam eu cwmni. Dwi'n gwrido rwan wrth gofio fod yn rhaid i mi, yn fy llais soprano, ganu i ddifyrru amryw o'r pregethwyr dwad.**

**Yn ystod y rhyfel roedd Mam yn rhedeg y tŷ capel ar ei phen ei hun am fod fy nhad i ffwrdd yn Burma efo'r fyddin. Ganed Marsli, fy chwaer, yn y tŷ capel ychydig fisoedd cyn i'n tad gael ei alw i fyny i'r fyddin. Enwyd Marsli ar ôl Marsli Jones, gwraig John Jones, Yr Hen Gloddiwr: pregethwr poblogaidd ac uchel ei barch, yn arbennig drwy ogledd Cymru.**

**Roedd yn weinidog Sardis ac ar yr un pryd yn gweithio yn y chwarel. Roedd amgylchiadau pawb yr adeg honno yn dlodaidd ac roedd hi'n amhosib talu cyflog i weinidog. Symud o Ddinorwig i Fangor wnaeth Mam a'n nhad yn y 60au cynnar i fod yn ofalwyr ar safle'r Fenai, Y Coleg Normal. Yr oedd y symud i raddau mawr oherwydd cyflwr iechyd fy nhad. Yr oedd yn waith ysgafn, i'w gymharu a'r gwaith caled yn y chwarel. Ar ôl marw fy nhad yn weddol ifanc, aeth Mam wedyn yn Fwrsar Cynorthwyol yn Neuadd Rathbone yn y Brifysgol.**

**Roedd yn byw mewn fflat yno ac wrth ei bodd ymysg y myfyrwyr ifanc. Roedd yn aelod o gapel Penuel yn ystod cyfnod y Parchedig Ifor Williams ac yn edmygydd mawr ohono ac yntau ohoni hi. Fe gyfarfu y ddau gyntaf pan oedd Ifor Williams yn fyfyriwr ac yn dod i fyny o Goleg y Bedyddwyr i bregethu yn Sardis ac wedyn wrth gwrs yn Weinidog ar Sardis a Libanus, Clwt y Bont.**



**Ym Mangor ceisiodd Mam uno gyda phob mudiad Cymraeg. Cofiodd yn dda am ei phrofiad yn cymryd rhan yn y rhaglen gwis deledu 'Gwybod y Gair', rhaglen wedi ei sylfaenu ar wybodaeth o'r Beibl a'r Llawlyfr Moliant, gan ddwyn i gof y bobl ddiddorol oedd ar y rhaglen. Ar achlysur ei phen-blwydd yn 100 oed yn 2015 a hithau'n cael ei ffilmio ar gyfer rhaglen '*Heno*', gwenodd wrth wneud y sylw: 'Mae'n rhaid na wnes i'n dda iawn y tro d'wetha ar y TV am 'nath neb ofyn i mi wedyn tan ddoth '*Heno*' yma i ffilmio pan dwi'n 100 oed.'**

**Wedi ymddeol, yn ôl yr aeth Mam i Minffordd Dinorwig i fyw. Bu Mam yn hoff o ddarllen erioed, fel ei mam, ac yn hoff iawn o deithio hefyd. fel ei thad, a bu'n ymweld â nifer fawr o wledydd Ewrop (a hynny mewn bws gan amlaf) ac enwodd Oberammagau, Rhufain, Fenis fel ei hoff ymweliadau.**

**Er nad oedd yn dweud hynny mewn geiriau, dwi'n gwybod mai fi a Marsli a'n teuluoedd oedd bwysicaf iddi. Wnaeth hi erioed ymyrryd yn ein bywydau ond roedd hi wastad yn barod i drafod pethau gan orffen bob tro gyda'r geiriau *'Y chdi sy'n gwbod ora'*. Yn gwbl groes i'r arferiad, gwnaeth un peth heb ymgynghori efo Nancy na finnau. Roedd y ddau ohonom ar y pryd yn fyfyrwyr ym Mhrifysgol Kansas UDA. Enillodd Nancy Gymrodoriaeth Woodrow Wilson i fyfyrwyr disglair astudio hanes y Celfyddydau Cain o dan Athro o'u dewis mewn prifysgol ym Mhrydain. Yr un pryd roeddwn wedi cael swydd dysgu yn Ysgol Mill Hill yn Llundain. Roeddem wedi hysbysu fy rhieni, drwy lythyr, ein bod am briodi ar ôl cyrraedd Bangor ond prin oedd yr amser cyn i mi ddechrau ar fy swydd dysgu yn Llundain a doedd gennym ddim syniad yn y byd sut oedd mynd o'i chwmpas hi i drefnu priodas (doedd y rhyngrwyd ddim ar gael yn 1962!). Roeddem mewn cariad ond yn naïf iawn wrth edrych yn ôl. Penderfynom mai'r ffordd fwyaf di-rodres a synhwyrol o dan yr amgylchiadau oedd priodi mewn swyddfa cofrestrydd. Nid oedd hi'n bosib i deulu Nancy fod yn ein priodas am fod y teulu ar fin dychwelyd i America ar ôl i dad Nancy fod yn filfeddyg yn y fyddin yn Ffrainc am bedair blynedd, yn profi iechyd yr anifeiliaid yno, i ddarganfod a oeddynt yn addas ar gyfer bwydo milwyr Americanaidd.**

**O edrych yn ôl ar y cyfnod, mae'n amlwg nad oedd Mam yn fodlon ar ein cynllun, neu ein diffyg cynllun. Ond am nad oedd yn un am ddadlau, fe aeth ymlaen, heb ymgynghori efo Nancy a minnau, i wneud paratoadau ar gyfer ein priodas. Trefnodd i'r Parchedig Ifor Williams ein priodi ym Mhenuel a bod y wledd briodas yn y festri; trefnodd organydd; trefnodd i'm ffrind o Ddinorwig a'm chwaer Marsli i fod yn was a morwyn priodas; a threfnodd y rhestr o wahoddedigion. I goroni'r cyfan, cafodd fenthyg recordydd tâp gan Maldwyn Lewis, er mwyn i rieni Nancy yn America glywed recordiad o'r seremoni. Roedd hi wedi gwneud yr holl waith yn hollol ddiffwdan a'r unig beth oedd yn rhaid i Nancy a fi wneud oedd troi i fyny. Dyna'r unig dro y gwnaeth Mam rywbeth llechwraidd tu ôl i'n cefnau ond roeddwn ac fe fyddwn yn dragwyddol ddiolchgar iddi am hynny. Dim rhyfedd fod Nancy yn dweud heb amheuaeth nad oedd yna fam yng nghyfraith ragorach yn yr holl fyd.**

*Eirwyn Morris*

*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Eglwys Seion, Laird Street, Penbedw

Anfonwn ein cyfarchion at holl ddarllenwyr *Yr Angor* gan obeithio eich bod i gyd yn cadw yn iach ac erbyn hyn yn mwynhau mwy o ryddid i fynd o gwmpas y siopau a hyd yn oed i fynd ar eich gwyliau. Fe'n brawychwyd wrth glywed y newydd annisgwyliadwy fod ein swyddog ffyddlon a gweithgar Terry O'Neill yn ysbyty Broadgreen Lerpwl ar ôl trawiad ar y galon. Rydym yn meddwl yn ddwys am Terry yn ei waeledd a Phyllis, ei wraig, yn ei phryder amdano, ac yn eu cofio yn ein gweddiau. Hefyd yr ydym yn meddwl am Goronwy, sydd yn cael triniaeth ar hyn o bryd. Dymunwn y gorau iddo.

Nid yw Sarah Davies wedi bod yn teimlo yn dda yn ddiweddar, ac anfonwn ein dymuniadau gorau ati. Mae ei dwy ferch, Ann a Helen yn ofalus iawn ohoni.

Yn *Y Goleuad* a ddaeth allan ar Awst 21 yr oedd llythyr gan y Barchedig Eleri Edwards yn sôn am y llyfr y mae newydd ei gyhoeddi, "Madagascar Memories 1973-1995". Rwy'n sicr y bydd o ddiddordeb mawr a rwyf wedi archebu copi ac yn edrych ymlaen i'w ddarllen. Fe gyhoeddodd Eleri lyfr yn 2014 o'r enw "Telynegion Taid Tregarth". Dyma lyfr sydd wedi rhoi mwynhad mawr i mi wrth ei ddarllen ac yn cytuno cant y cant a'r hyn a ysgrifennodd Mrs Marged Jones, Ruthin yn ei chyflwyniad i'r llyfr ac rwyf yn ei ddyfynnu –

"Teimlaf fod rhywbeth at ddant pawb yn lleddf, yn llon ac at pob achlysur. Gall fod yn llyfr erchwyn gwely neu gellir ei bigo i fyny unrhyw amser fel bo'r teimlad. Daw a llawer o atgofion am y dyddiau a fu, ac fe wna anrheg Nadolig penigamp".

Mae'n bleser mawr cael cyhoeddi'r newydd da ein bod wedi penderfynu ynghyd ag Eglwys Bethel Heathfield Road Lerpwl ail agor y capel ar y Sul cyntaf yn Rhagfyr pryd y bydd y Parchedig Ddr Gwynne Parry yn pregethu. Mae'n braf iawn cael dyddiad i ganolbwyntio ac i wneud y trefniadau angenrheidiol a osodir i lawr gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Fe fyddwn yn ofalus iawn i sicrhau diogelwch ein aelodau ac fe gawn ddathlu Gŵyl y Geni yn y capel fel yn y gorffennol. Fel eglwys edrychwn ymlaen yn ffyddiog at fis Rhagfyr.

Yn y cyfamser, pob bendith arnoch chwi'r darllenwyr a cadwch yn ddiogel.

***Brawychwyd ni i gyd ar y Glannau ar fore Iau 3 Medi o glywed am faarwolaeth Terry O'Neill yn Ysbyty'r Galon a chydymdeimlwn yn fawr gyda'i briod hoff Phyllis ag eglwys Seion. Bydd Ysgrif Goffa amdano yn y rhifyn nesaf.***

## Eglwys Bresbyteraidd Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

Llwyddodd Dr. John G. Williams a'r Parch. Robert Parry i baratoi taflen newyddion bob wythnos am ein gweithgareddau a honno yn ddwyieithog. Braf yw cael diolch iddynt ac i Nan H. Parry a Dr. Pat Williams am ei homiliau hwythau pan oedd ein cynorthwy-ydd bugeiliol ar wyliau.

Mynegwyd llawenydd am lwyddiant dwy wyres Mrs Gwenfyl Bain, y ferch hynaf yn mynd i Brifysgol Durham a derbyniodd Tomos Rees, mab Bethan a Hefin Rees radd dda o Brifysgol Sheffield ac eisoes wedi derbyn cyfleon i wneud ymchwil am radd MSc (Economeg). Dymunir yn dda i'r tri.

Trefnwyd nifer o gyfarfyddiadau ar *zoom*, gyda'r cwis, ac ar 4 Hydref bydd Dr. D. Ben Rees yn paratoi oedfa *zoom* am 11 o'r gloch i bawb sy'n dymuno ymuno o Seion a Bethel a Bethania. Bydd y Parch. Robert Parry yn paratoi ar gyfer 18 Hydref a Dr Rees eto ar Tachwedd 1. Ein bwriad yn awr os bydd amgylchiadau yn caniatau ydyw cael Oedfa Gymun ar 6 Rhagfyr o'r Capel a gofalu hefyd am y Nadolig. Disgwylir Robert Parry ar 13 Rhagfyr a Dr. Ben Rees ar 20 Rhagfyr. Gweddïwn y cawn y rhwyddineb i weithredu y cynllun hwn.

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Da yw gweld un o blant Stanley Road yn cael ei anrhydeddu am ei lafur ac fe gaiff portread ohono le amlwg yn y rhfyn hwn o'r *Angor*. Diolch i Dr. John G. Williams am fynd yn unswydd i Ysbyty Alder Hey i ymgomio gyda'r Parch. David Williams. Llawenydd mawr i'r teulu ac yn arbennig ei chwaer Mrs Pam Macnamara o'n capel ni. Gobeithiwn fanteisio ar oedfaon y *zoom* fel y paratowyd hwy, a gwerthfawrogwn ein bod yn cael bugeilio dros y ffôn gan ein Gweinidogion, Dr. Ben Rees a'r Parchg. Robert Parry. Bu diddordeb mawr fod Dr. Rees wedi cael ei anrhydeddu o fod ar restr fer Llyfr y Flwyddyn 2020 – sef Hanes Rhyfeddol Cymry Lerpwl, cyfrol nodedig dros ben, ac yn haeddu pob cydnabyddiaeth. Mae'n amlwg nad oedd y testun yn boddhau'r pum beirniad y tro hwn ac yn wir rhyfedd oedd gweld dau Brifardd ddim yn cael y wobr yn Adran Barddomniaeth. Barn bersonol sydd yn llywio'r cyfan, ond mae trydydd gynnig i Gymro meddai'r hen air.

## Newyddion Manceinion

Cyfarchion o Fanceinion ar amser digon dyrys yn ei hanes. Oherwydd y coronafeirws, nid ydym wedi gallu addoli ers misoedd bellach ond diolch i Eleri, rydym yn derbyn bwletin cyson i'n cysuro ac i'n cadw mewn cysylltiad â chyfeillion. Rhyfedd yw peidio â mynd i Noddfa Oaker Avenue ar brynhawn Sul – defod sydd bellach yn rhan o'n bywydau ni, Gymry Manceinion, a gwelwn golli y cyswllt yma yn fawr. Mae llygedyn o obaith ar hyn o bryd fod pethau yn gwella yn araf deg ac edrychwn ymlaen at ail-ddechrau ein gwasanaeth ar y Sul, yn Altrincham yn y bore neu Noddfa Oaker Avenue brynhawn Sul. Erbyn hyn y tebygrwydd yw ein bod yn mynd i ail-agor ym mis Rhagfyr. Does dim gweinidogion o Gymru i ddod yma tan y flwyddyn newydd, 2021. Rydym yn gynulleidfa oedrannus ar y cyfan a llawer yn byw yn bell. Doethineb yw aros eto nes bod pethau yn setlo i lawr. Sefyllfa anghyffredin a thrist ond y Covid sy'n ein gorfodi.

Mae rhaglen Cymdeithas Cymry Manceinion 2020-2021 wedi ei chwbwlhau ac roedd ein cyfarfod cyntaf i fod i'w gynnal ar Hydref y 9fed yn Noddfa Oaker Avenue yng nghwmni Eleri o dan y teitl 'Ar Fy Nghais'. Ond yma hefyd oedd rhaid inni benderfynu ohirio ein cyfarfodydd tan y flwyddyn newydd. Ymddiheuriadau i fynychwyr y Gymdeithas ond dyna sy'n ddoeth ar hyn o bryd.

Yn ystod y cyfnod clo cefais i, Eleri, gyfle i wneud llyfr o atgofion o'm gwasanaeth ym Madagascar flynyddoedd yn ôl – o'r 70au i'r 90au – ac roedd yn dasg bleserus a orffenwyd gyda chydweithrediad eraill i'w gyhoeddi yn Saesneg – 'Madagascar Memories' yw'r teitl. Felly rwy'n falch o adael i ddarllenwyr *Yr Angor* wybod bod y llyfr ar gael am £10, yr elw er budd i waith y chwiorydd ar yr Ynys fawr honno. Costau'r post yn ychwanegol o gwmpas £2.

Yn ystod yr haf, mae un o'n haelodau, Eflyn Evans wedi cael triniaeth lawfeddygol. Mae hi adref ac yn gwella yn reit dda ac anfonwn ein dymuniadau goreu at Eflyn sydd wedi rhoi blynyddoedd maith o wasanaeth di-flino i'r Achos Cymraeg yn y ddinas. Dymunwn adferiad buan iddi. Brysied y dydd y cawn weld ein gilydd unwaith eto a chael cymdeithasu – a rhoi'r byd yn ei le! 'Un teulu ydym ni' yn y ddinas a gwerthfawrogwn y cyfeillgarwch sydd yn ein mysg. Hir y parheir.

***Anne S. Hunt & C. Eleri Edwards***

# MYFYRDOD AR Y DRWS AGORED

*GAN NAN HUGHES PARRY*

Wrth gerdded drwy barc Reynolds yn Woolton y dydd o'r blaen daeth â llawer o atgofion i mi o Ddydd y Cymry yn cael ei gynnal yma a hynny ar y Sadwrn cyntaf ym mis Gorffennaf.

Dyma ymweliad cyntaf ein gweinidog â ni cyn cychwyn ar ei weinidogaeth ym Methel y Sul canlynol, a hynny yn y flwyddyn 1968.

Anelais at giat yr ardd flodau ac er siomiant mawr i mi roedd hi ar gau. Hoffwn fod wedi cael eistedd ar y fainc i werthfawrogi yr arddangosfa amryliw o flodau hardd. Y giat ar gau, a dim croeso yn y rhan yma o'r parc.

Er bod drws Capel Bethel ar gau ar hyn o bryd oherwydd y pandemic, mi wn am ddrws sy'n agored led y pen ddydd a nos. *"Myfi yw'r drws"*.

Iesu Grist yw'r fynedfa at Dduw. Darllenwn yn y Beibl am Pedr a'i ddisgyblion yn ofnus ac wedi cloi y drws ar ôl croeshoeliad yr Iesu; ond heb rybudd iddynt daeth rhywun i mewn heb agor y drws a sefyll yn eu canol a dweud *"Shalon"*. *"Tangnefedd i chwi."*

Ac ar amser argyfyngus fel hyn, Ef yw'r cydymaith tragwyddol sydd yn cyd-gerdded â ni ar daith bywyd ac yn sibrwd wrthym. *"Tangnefedd i chwi."*

# MOLAWD I GWMORTHIN

***gan Roy Williams, Llundain***

Cyfarchion o Lundain. Roeddwn mor falch o weld erthygl arbennig Dr. D. Ben Rees am y Capel yn agos i Llyn Cwmorthin ger Tanygrisiau. Cerddaf bob blwyddyn heibio'r Capel mewn cof am fy rhieni, Sylvia a John Williams, aelodau annwyl o Gapel Heathfield Road. Cafodd fy mam Sylvia ei geni a'i magu yn Nhanygrisiau a dyma oedd hoff fangre fy nhad. Mae'r cylch oamgylch y Capel yn Cwmorthin mor wahanol i bron bob lle arall. Gwelir olion y diwydiant llechi y bedwaredd ganrif ar bymtheg, clytwaith o rwbel wedi ei daflu i'r tirlun fel sos yn syrthio o botel. Daliant yno wedi ei hanwybyddu, yr elw yn straen ar y mynyddoedd, a'r cyfan heb neb yn erfyn amdano. Y mae'r Cwm yn dal i atgoffa un o gefndir gwledig caled ac yn bell o bobman. Mae'n perthyn i'r cynfyd, yn atgoffa ni o'r lleuad ac yn hynod o dawel. Mae'n cymeryd amser i ddod i delerau a'r oes ôl ddiwydiannol gyda'r llechi llwyd sydd yn derbyn yr haul ac yna y glaw a ddaw yn gyson i Ogledd Cymru. Nid oes llawer o fywyd dynol yno, dim ond defaid a'r rheiny yn ofnus ac yn troi am noddfa. Yn awr ac yn y man clywir y brain yn torri ar y tawelwch gyda'i sgrechian yn y niwl.

Euthum gyntaf i Gwmorthin yn haf sych 1976, Collais fy *Action Man* yn y rhaeadr a disgwyliais yn amyneddgar am i'r dŵr oer ddod ag ef i'r lan. Pan aeth hi'n dywyll cerddodd fy nhad a m i yn ôl i'r *campervan* gyda golau lamp. Syrthiais i gysgu yn y cefn yn wylo am golli fy ffrind.

Bob tro yr af yno mae'r Capel fel pe bai yn araf lithro i'r tirlun, llechi gyda'r mwsog yn tyfu drosto. Rhai blynyddoedd yn ôl edrychai'r adeilad fel pe bai yn dal y cyfan, yn falch ohono'i hun, amserau eraill edrychai fel pe bai'n barod i gael ei dynnu i lawr i'r ddaear gorsog. Gaeaf caled arall fe all y cyfan ddod yn ddeilchion ac fe fydd llais y Capel yn llithro ymaith i'r gorffennol.

Rwyf wedi cludo fy mhlant Morgan, Ellis a Seren yn ôl yno lawer tro, fel y medrant ddeall yn well lle mae ei gwreiddiau. Dyma'n cenedl, lle y daeth fy hynafiaid at ei gilydd i'r Capeli i addoli a canu yn swynol er gwaethaf y gofidiau a'r byd caled. Gwelaf y Capel, y chwarel a'r tyddynod adfeiliedig yn gofgolofnau anghofiedig i dlodi a gorthrwm. Er fod y chwareli wedi hen gau, mae olion yw gweld yn y tir, yn ddwfn ac yn dweud stori. Bu fy nhaid ac eraill yn gweithio o dan y graig heb eu gwerthfawrogi. Llwyddwyd i wneud dynion cryf yn dyner gan lwch y chwarel a lanwai yr ysgyfaint a difa'r croen. Dwyn ei nerth, peswch a mwy o beswch … a phrynent eu canhwyllau. Wrth gerdded y llwybrau oamgylcvh Cwmorthin mewn myfyrdod, yw rhythmeg ac mae'n bwysig. Bellach aeth y llwybrau bron yn angof a heb y defnydd a ddylid. Nid dyma'r lleoliad mwyaf cynnes na'r lle mwyaf prydferch. Ond dyna'r holl bwynt. Mae'r tomenni y rwbel yn cael eu hennill yn ôl gan natur. Mae'n le arbennig, ewch yno i ymweld a'r fangre arbennig. Hiraeth sy'n llenwi fy nghalon a diolchaf am adnabod Cwmorthin ac am yr ysgrif a'm hysbrydolodd i anfon am y tro cyntaf ysgrif i'r *Angor*. Diolch i'r Golygydd am gyfieithu'r cyfan i iaith fy hynafiaid.

***[Ar ôl derbyn rhifyn Awst/Medi o'r Angor cafodd Roy Williams ei ysgogi i lunio erthygl ardderchog i'r Angor. Cynnyrch bywyd Cymraeg Lerpwl ydyw a bellach deil swydd bwysig yn Neuadd Wen, Llundain fel gwas sifil ym myd ein Llywodraeth. Ond gwelwn yn yr sgrif hon lle mae ei wreiddiau, y Cymro Cymraeg, a fu yn ffyddlon yng nghapel Bethel, Heathfield Road yn blentyn ac yn ŵr ifanc – Gol.]***

***Emynau Cyfoes***

# Emynau o waith Euryn Ogwen

## EMYN YR YNYSU

Holl dristwch y colledion sydd
Yn ofid ac yn herio'r ffydd,
Mor fregus ydyw byw.
O ddydd i ddydd yr un yw'r cri
Dros bawb ofala drosom ni
Mae'n diolch byth, O! Dduw.

Agorir drysau yn eu tro
Cawn ail gysylltu yn ein bro,
A dechrau llawenhau.
Lle bu distawrwydd, bydd dydd gŵyl
A'r stryd fu'n wag yn llawn o hwyl
A'n gobaith yn cryfhau.

A yw yn natur dyn, o Dduw
I newid o'i hen ffordd o fyw
Os daw yn iach o'r clwy?
A welir y traha i gyd
Yn troi yn aberth yn ein byd
Fel na fydd trachwant mwy?

***Euryn Ogwen***

*Yr emyn hon i'w chanu ar dôn "Pembroke".*

## EITHR DUW

Fe ddwedodd y proffwydi lawer gwaith
Wrth lawer teyrn mai'r broblem oedd y ffaith
Fod llywodraethau'n fwy na rhyfyg, ffŵl,
Ac nad oedd gwrthod 'wyllys Duw yn cŵl.

Dim ond ychydig oedd yn ddigon doeth
I wrando rhybudd proffwydoliaeth noeth
Ac o ganlyniad dim ond un neu ddau
ohonynt sydd â'u henwau da'n parhau.

'Dyw pethau ddim gwahanol ers cyn co'
Mewn teyrn rhyfygus yn un fath bob tro.
"Hwn ydyw'n byd a ni sydd wrth y llyw
A dyna ddiwedd arni – "Eithr Duw…"

***Euryn Ogwen***

*Yr emyn hwn i'w ganu ar y dôn "Ellers".*

**Gair y Golygydd –**
Diolch i Mrs Anne M. Jones, Allerton am anfon dau emyn cyfoes o waith ei chefnder Euryn Ogwen ac anfonwn ein cofion iddo.

Tra yn canmol camp y cochion
Mae'n nheimladau gyda'r GLEISION,
Ond daw amser eto'm lloni
O dan faner Anceloti.

***Gwyn Roberts.***

Hydref 2020.qxp_Layout 1 09/09/2020 16:39 Page 6

# Y MAWR HAD

Y mae'n dymor tyfu tomatos a chiwcymberau unwaith yn rhagor. Pan ddeuthum i fyw'n y tŷ hwn ar ôl ymddeol trois hen garej a oedd yn y cae y tu ôl iddo yn fath ar ystafell wydrog. Fy mwriad – uchelgeisiol braidd – oedd gwneud rhyw fath o stiwdio yno, ond pan sylweddolais ba mor sâl oeddwn gyda brwsh a phaent penderfynais ei defnyddio fel hanner tŷ gwydr. A ninnau wedi cael hanner Ebrill a Mai heulog dros ben, y mae'r tyfiant yno'n addo cynhaeaf da eleni.

Y mae deugain a phump o flynyddoedd er pan godais fy nhŷ gwydr cyntaf, a hynny yn Llandegfan, Môn. Gwanwyn 1975 oedd hi. Y pryd hwnnw yr oedd fy nhad-yng-nghyfraith, a oedd yn arddwr rhagorol, newydd ymddeol, ac nid oedd byw na bod na châi ef a'i gyfaill mawr Llywelyn Jones, Neuadd Wen, Niwbwrch, ffarmwr ac un campus am dyfu blodau, ddod draw megis i arolygu'r ardd, ac i roi cyngor imi ble'n union y dylwn osod y tŷ. Wrth gwrs, gwerthfawrogwn eu hymyrraeth yn fawr. Yr oedd ganddynt ugeiniau lawer o flynyddoedd o brofiad o dyfu pethau. Ac yr oedd y ddau, yn wahanol i mi, yn ffetus â'u dwylo, y naill yn gyn-chwarelwr ac yna'n fforman gyda ffyrm o adeiladwyr a'r llall yn ffarmwr. At hynny, yr oedd eu cwmni'n ddi-ffael ddifyr.

Pan ddeuthum adref o'r coleg un amser cinio ddechrau Tymor yr Haf dyna lle'r oedd y ddau begor yn pwyso ar wal y cefn, yn edrych dros yr ardd yn union fel petai hi'n stad o wir faintioli, ac yn sgwrsio bymtheg y dwsin. Ond nid trafod rhediad y tir na safle arfaethedig y tŷ gwydr newydd yr oeddynt. Yn hytrach, trafod yr oeddynt emyn enwog Rhys Nicholas sy'n agor gyda'r llinell, 'Tydi a wnaeth y wyrth, O Grist fab Duw'. Byddai fy nhad-yng-nghyfraith wrth ei fodd gyda barddoniaeth. Cynan oedd ei arwr, a gweithgareddau'r Babell Len – ie, y Babell Len, nid y Babell Lên – a âi â'i fryd bob dechrau Awst. Hoffai Llywelyn Jones lyfrau hefyd, a sgyrsiai'r ddau amdanynt bob cyfle a gaent.

Erbyn hyn, ni chofiaf pam yr oeddynt yn trafod emyn Rhys Nicholas. Yr oedd yn gymharol newydd y pryd hwnnw, ac efallai'n dopical, ys dywedir. Ta beth,



*Oes gyda chi emyn a gysylltwch â thŷ gwydr?*

dyna lle'r oeddynt yn eu Pabell Lên awyr-agored hwy eu hunain yn trin a thrafod hon. Pan welsant fi'n dod, dyma un ohonynt yn dweud, "Wyddoch chi be? Dw i'n hitio dim am y gair 'mawrhad' yna." "Na finnau chwaith," ebe'r llall. "Beth sy'n bod arno fe?" gofynnais i. "Pa synnwyr sydd ynddo?" meddai un ohonynt, gan adrodd y llinell 'A rhoddaf, Iesu, fy mawrhad i ti'.

"Pwy fyddai'n rhoi mawrhad i'r Iesu?" oedd y cwestiwn nesaf. "Mawrhad yw b*ig seed*, a does dim sens bod neb yn rhoi hynny i'r Iesu." Dyma fi wedyn yn nodi taw enw haniaethol yn golygu moliant oedd 'mawrhad', a bod ei derfyniad fel yr '-had' a geid yn y geiriau 'sancteiddhad' a 'cyfiawnhad'. Ysgwyd eu pennau a wnaethant, eu pennau gerddi a hadau tomatos, gan wrthod yn llwyr fy nhipyn esboniad colegaidd i.

Dros ginio yr oedd fy ngwraig a mi'n chwerthin am eu pennau. "Dowch o 'na," meddem ni. Ond yr oedd yr hen chwarelwr a'r hen ffarmwr am barhau'r hwyl. Os hwyl. A than y dydd heddiw, a'r ddeuddyn hoff, cellweirus, hen, wedi hen fynd i'w hateb, ni wn yn iawn ai tynnu fy nghoes yr oeddynt gyda'r 'mawrhad' ai peidio. Ond prin fod yn rhaid imi ddweud na allaf fyth wrando ar emyn ardderchog Rhys Nicholas heb gofio Richard Edwards a Llywelyn Jones, ac mai â thŷ gwydr nid â thŷ'r Arglwydd y cysylltaf hi'n bennaf. Oes gyda chi emyn a gysylltwch â thŷ gwydr?

***Derec Llwyd Morgan***


# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -

CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

National Association of Funeral Directors Est 1905

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514

Hydref 2020.qxp_Layout 1 09/09/2020 16:39 Page 7

*Cyflwyno*

# KATE BOSSE-GRIFFITHS (1910-1998)

**gan y Dr. Pat Williams**



Yn y dyddiau argyfyngus hyn pan yw pobl yn dioddef nid yn unig o haint pandemig ond hefyd o newyn a thrais, sy'n eu gorfodi i ffoi o'u gwlad, daw hanes un ferch arbennig i'r cof, sef Käthe Julia Gertrud Bosse, a aned yn Wittenberg, dinas Martin Luther, 16 Gorffennaf 1916. Roedd hi'n ferch ddawnus iawn ac ar ôl astudio'r Clasuron ac Eifftoleg ym mhrifysgolion Berlin, Bonn a Munich, fe'i penodwyd i swydd yn Amgueddfa Wladol Berlin, ond am fod ei mam yn Iddewes, cafodd ei diswyddo yn 1936, er ei bod hi ei hun wedi cael ei derbyn yn gyflawn aelod yn yr Eglwys Lutheraidd. Daeth hi i Brydain ac ar ôl cyfnod byr yn Yr Alban, cafodd hi swydd yn Adran Eifftoleg, Coleg Prifysgol Llundain ac wedi hynny yn Amgueddfa Ashmolean Rhydychen, lle y cyfarfu â'i darpar-ŵr, J Gwyn Griffiths, un o ysgolheigion Eifftoleg gorau ei genhedlaeth.

Priodwyd y ddau ym mis Medi 1939, y mis y dechreuodd yr Ail Ryfel Byd. Fel Almaenes, a oedd hefyd yn heddychwraig, byddai hyn yn siwr o fod yn gyfnod anodd iddi, ond roedd hi wrth ei bodd â Chymru ac aeth ati i ddysgu'r iaith Gymraeg a'i meistroli'n ddigon da i ysgrifennu llyfrau ynddi. Roedd hi'n ddewr iawn i gyhoeddi'r pamffledyn *Mudiadau Heddwch yn yr Almaen* yn 1943 yng nghanol y rhyfel. Dilynwyd hyn gan lyfrau eraill yn ymwneud â'r wlad lle y'i magwyd: *Bwlch yn y Llen Haiarn* (1951) a llyfr teithio *Trem ar Rwsia a Berlin* (1962), lle roedd hi'n feirniadol iawn o gomiwnyddiaeth a gorthrwm Rwsia ar ei gwlad. Efallai mai'r gormes hwn a wnaeth iddi weithio'n galed dros hunanlywodraeth i Gymru.

Gyda'i gŵr sefydlodd ar eu haelwyd grŵp trafod a adnabyddir bellach fel Cylch Cadwgan. Amcan y cyfarfodydd oedd trafod materion o bwys fel crefydd, heddychiaeth a chenedlaetholdeb ond, yn anad dim, roeddent yn awyddus i ryddhau llenyddiaeth Gymraeg o hualau'r gorffennol a'i dwyn hi o dan ddylanwadau Ewropeaidd ehangach; ac fe gyflawnwyd hyn gan Kate Bosse-Griffiths yn anad neb.


Cyhoeddwyd ei nofel gyntaf *Anesmwyth Hoen* yn 1941, sy'n ymwneud â llwybr bywyd merch uchelgeisiol o'r enw Megan, nad oedd yn fodlon â'r rôl disgwyliedig i ferched y cyfnod ac yn gadael ei chartef yng Nghymru am fywyd myfyrwraig yn Llundain. Wrth gyfarfod â merched o genhedloedd a chefndiroedd gwahanol i'w heiddo hi, mae Megan yn sylweddoli 'mor lawn o ragfarn a hen draddodiad yw ein syniadau fel rheol.' Serch hynny, yn y diwedd mae hyd yn oed Megan yn dewis priodi o flaen gyrfa annibynnol.

Gwelir yr un syniadaeth yn *Mae'r Galon wrth y Llyw*, a ail gyhoeddwyd gan Wasg Honno yn 2016. Ceir triongl cariad yn y nofel hon. Mae'r prif gymeriad Doris yn credu ei bod wedi darganfod ei chymar delfrydol, rhagdyngededig, dim ond i gael ei dadrithio, pan ddaw i wybod ei fod eisoes wedi dyweddïo â rhywun arall. Er gwaethaf y twyll a'r anffyddlondeb sy'n dilyn priodasau y ddau, nid yw'r awdur yn beirniadu Doris ond yn ei phortreadu fel un sy'n dioddef o ganlyniad i gonfensiynau cymdeithas gul.

Mae ei chyfrol o straeon byrion *Fy Chwaer Efa* (1944) hefyd yn herio safonau cymdeithas gyfoes, a oedd yn cael ei rheoli gan wŷr oedd yn peri anrhefn 'drwy eu hunanoldeb a'u egotistiaeth'. Parhaodd yn weithgar ar hyd ei hoes a phan oedd hi'n 84 blwydd oed, cyhoeddodd *Cariadau*, cyfrol o naw stori sy'n ymdrin â gwahanol agweddau ar gariad o safbwynt merch.

Roedd Kate Bosse-Griffiths ymhell o flaen ei hoes yn annog annibyniaeth i ferched ond nid yw ei gwaith wedi cael y gydnabyddiaeth a haedda, efallai oherwydd ei hymdriniaeth ryddfrydig o foeseg yr oes a'i hiaith ddiflewyn-ar-dafod wrth drafod rhywioldeb mewn cyfnod pan nad oedd hynny yn gyffredinol gymeradwy.

## Heddiw, 02:07:20 bu farw Syr Everton Weekes yr olaf o Sêr y 3W Tîm India'r Gorllewin yn y 50au.



*Yn y pum degau – nhw oedd y 'duwiau'-*
*nhw, Y 3W tîm India'r Gorllewin…*
*a'u batio'n ail ddiffinio terfynnau*
*yr hen gêm sidêt – chwarae dan chwerthin!*
*Worrell y Capten, batiwr fel sidan,*
*Weeks ei bartner – bagiad o rediadau,*
*Walcott, wicedwr waldiwr – arf carfan –*
*Y Tri du hyn, ddaeth a'n byd gwyn i'w luniau…*
*Nawr, y mae'r olaf yn y Pafiliwn…*
*Everton, sgwat, batiwr chwalwr sgorfyrddau*
*athrylith hil Ynasoedd Y Pardwn*
*bum rhediad blwyddyn o fyw'n gant ei ddyddiau…*
*Aeth bys y Canolwr lan – "Wyt allan"_*
*dos at y ddau arall – heibio'r Purdan!*

*Norman Closs*
*(Edmygydd mawr o'r rhain roes hapusrwydd haf i'w einioes)*




*Energlyn, Caerffili*
*9-7-2020*

*Annwyl Olygydd,*

Hoffais yn fawr rhifyn Awst/Medi o'r *Angor* yn arbennig yr ysgrif ar Cwm Orthin (t.12). Rwy'n gwybod am y lle yn iawn er ei fod wedi newid, mae lôn yn mynd drwyddo i dorri Stiniog (y dre) allan ac yn syth heibio Gloddfa Ganol (roedd Taid yn gweithio yno), ac wedyn y Crimea. Roedd capeli bach yma a thraw. Cofiaf y Parchedig Tom Nefyn mewn pregeth yn sôn am y 'tramp' yn cysgodi mewn un capel yng Nghwm Orthin ac yn syrthio i gysgu. Deffrodd pan ddaeth y gofalwr. Roedd y gofalwr am oleuo'r lampau olew i gyfarfod yr hwyr. Yn ystod yr oedfa cafwyd y casgliad a dyma'r hen dramp mewn sefyllfa anodd. Ond roedd bocs matsus ganddo. Dyma fe'n ei rhoi yn y casgliad a dweud pan ddaeth y casglwr heibio 'Fe wnai rhain i oleuo'r lampau'!!!

*Pob bendith,*

***Elwyn Parry***

Ôl-nodiad – Roeddwn yn adnabod Orthin. Roedd chwaer fy mhriod Mary yn aelod yn y capel Trethomas a bum yno yn pregethu lawer tro. Pleser tu hwnt oedd cael bod yn eu plith.

# CLECS O'R EISTEDDFOD (1927)

## *gan John G. Williams*

Fel arfer buaswn yn cydweld gyda'r llinnell gyfarwydd 'O na fyddai'n haf o hyd' oherwydd dyma dymor criced, y gerddi lliwgar, tywydd brafiach nag arfer a'r bererindod i'r Eisteddfod Genededlaethol yn lle bynnag ei cynhelir - ein gwledd ddiwylliannol flynyddol. Mawr oedd fy siom pan ohirwyd Eisteddfod Tregaron eleni oherwydd yr angen i osgoi crafangau y firws COVID. Lle felly 'roeddwn am dderbyn dogn o fwrlwm Eisteddfodol am eleni ?

Yn rhifyn Mehefin o *Barn* ymddangosodd adolygiad rhagorol o lyfr J. Elwyn Hughes *Trysorau Coll Caradog Prichard*[1] cyfrol sy'n haeddu ymddangos ar restr fer Cystadleuaeth Llyfr y Flwyddyn 2021. Enillodd Caradog Prichard ei goron Eisteddfod Genedlaethol gyntaf yn Eisteddfod Caergybi, 1927. Ef oedd y bardd ieuengaf i ennill y Goron ar y pryd. Yn dilyn hynny, enillodd ddwy goron arall yn y ddwy flynedd olynol sef yn Eisteddfodau Treorchi a Lerpwl. Mae awdur y llyfr wedi cael golwg ar y papurau a roddwyd gan Mari Prichard, merch Caradog, i Lyfrgell Genedlaethol Cymru. Maent yn cynnwys gohebiaeth rhwng Caradog a'i deulu a'i ffrindiau. Canolbwyntiodd yr adolygiad gan Menna Baines am y llyfr ar dri llythyr a ysgrifennwyd ac 'roedd un ohonynt oddiwrth Awen Williams, un o gyn-gariadon Caradog. Mae hi'n ysgrifennu, wedi Caradog ennill ei ail goron yn 1928, 'Cefaist gryn sylw yng Nghaergybi y llynedd oherwydd y stwr fu ynglyn a'r seremoni'.

Cefais fy ysbrydoli i chwilio beth yn union oedd achos y stŵr yma pan gafodd yr Eisteddfod, am yr unig dro, ei chynnal yn y tref lle treuliais y mwyafrif o fy mhlentyndod. Edrychwch ar y We am adroddiad 'Pathe News' o gyfarfod Gorsedd y Beirdd ym Mharc y dref. Mae mans Capel Hyfrydle i'w weld yn glir yn y cefndir.[2]

Nid oedd Eisteddfod Caergybi heb ei digwyddiadau dadleuol. 'Roedd rhestr y llywyddion ar gyfer y cyfarfodydd yn y pafiliwn yn darllen fel *'Who's Who'* o Arglwyddi y Deyrnas Unedig, esgobion eglwysig ac aelodau seneddol. Un o uchafbwyntiau'r Eisteddfod oedd anerchiad Llywydd prynhawn Mercher gan y Gwir Anrhydeddus Winston Churchill, A.S. ond cafodd y gynulleidfa ei siomi – anfonodd Churchill delegram i



*Caradog Pritchard yn 1928*

ddweud ei fod wedi cael ei ddal yn y Cabinet ac yn methu â bod yn bresennol. Ond yr oedd gwaeth i ddod.

'Roedd cystadleuaeth olaf y prynhawn hwnnw ar gyfer Corau, o ddim mwy na 200 mewn nifer. 'Roedd tri chôr cystadlu o Doncaster, Dulyn ac Henffordd. Côr Donacaster ddechreuodd y gystadleuaeth ond roedd eu perfformiad mor wael , yn ôl gohebydd y *Western Mail*, fe adawodd gannoedd o bobl y pafiliwn.[3]

Dilynodd Côr Dulyn wedyn. Eu darn cyntaf oedd *'As Vesta was from Latmos Hill descending'* ac roedd eu perfformiad yn 'drydanol'. Ar ôl ychydig fariau o'r ail ddarn, '*The Phanton Caravan',* cafodd y côr ei atal rhag canu gan yr arweinyddes, Miss Culwick. Aeth yn syth at y piano a tharo'r nodyn cywir a dechrau o'r newydd. Trafododd y beirniaid a ddylid gwahardd y Côr ai peidio ond mae'n debyg nad oedd rheol yn erbyn yr hyn yr oedd Miss Culwick wedi ei gwneud ac enillodd y côr y Gystadleuaeth!

Roedd seremoni Coroni'r bardd wedi cymeryd lle y diwrnod cynt. Derbyniodd Caradog Prichard rybudd ei fod wedi ennill y gystadleuaeth am ei bryddest '*Y Briodas'* ac i gadw y newydd yn gyfrinach hyd nes bod y seremoni drosodd. Roedd yn falch iawn o dderbyn yr anrhydedd yma ond roedd si yn mynd o amgylch y byddai'r bardd llwyddiannus yn cael ei wisgo i fyny yn y modd Derwyddol am y tro cyntaf, fel aelodau eraill o'r Orsedd. Nid oedd Caradog Prichard yn barod i wisgo i fyny fel hyn oherwydd nad oedd yn credu fod yna gysylltiad rhwng derwyddion yr oes a fu a'r traddodiad barddol, fel y credai Iolo Morgannwg . Eglurodd ei safbwynt mewn erthygl i'r *Western Mail* fel hyn *"I had no objection to members of the Gorsedd making asses of themselves."* 'Roedd eraill yn cytuno ag ef hefyd yn cynnwys neb llai na'r hanesydd ac ysgolhaig Syr John Morris Jones.

Ysgrifennodd Caradog ar Elfed, yr Archdderwydd ar y pryd, yn bygwth gwrthod derbyn y Goron pe byddai'r Orsedd yn mynnu fod yn rhaid iddo gael ei arwisgo. Enillodd y frwydr ond cafodd ei feirniadu yn hallt am ei safbwynt gyda un dynes o'r Unol Daleithau yn ysgrifennu ato "*It was too bad of you to endeavour to upset all our Welsh traditions. Too Bad! Cymru am byth."*[4]

Mae dwy hanes arall am y Goron a ennillodd Caradog yng Nghaergybi. Bu ei fam yn Ysbyty Dinbych, oherwydd ei salwch seiciatryddol, o 1923 hyd ei marwolaeth yn 1954. Aeth Caradog i'r ysbyty i ddangos y Goron iddi ond nid oedd hi'n medru gwerthfawrogi arwyddocâd y Goron na llwyddiant ei mab. Ar nodyn ysgafnach gwisgodd Mattie, ei wraig, y goron ar ddiwrnod ei phriodas!



*Coron Eisteddfod Caergybi 1927*


**Cyfeiriadau**

[1] Hughes, J. Elwyn, *Trysorau Coll Caradog Prichard* : Y Lolfa, 2020

[2] *Pathe News* ar 'You Tube' - https://youtu.be/1N-y_36PUj8

[3] *Western Mail*, Awst 10fed 1927

[4] *Y Ford Gron*, Awst 1931. Cyfrol 1, rhif 10

Hydref 2020.qxp_Layout 1 09/09/2020 16:39 Page 9

# AMSER I FYFYRIO

Yn ystod y pandemig a chyda digwyddiadau'r wythnosau diwethaf mae wedi rhoi amser inni i gyd fyfyrio ac ystyried yn ddyfnach am hiliaeth yn ein cymunedau.

Daeth ein meddyliau ar hyn i ganolbwynt gan ddigwyddiadau Mai 25, 2020 pan laddwyd George Floyd, dyn du 46 oed, ym Minneapolis, Minnesota, yn ystod ei arestiad gan yr heddlu.

Dechreuodd pobl gwestiynu pa fath o ddelwedd yr oeddem yn ei chyflwyno o ran hiliaeth. Gwelsom dystiolaeth o hyn pan dynnwyd cerflun Edward Colston i lawr a'i daflu i harbwr Bryste. Rwy'n siŵr nad oedd gan fwyafrif bobl Mryste fawr o wybodaeth, os o gwbl, am ei gysylltiadau â'r 'fasnach gaethweision'. Mae hyn yn dangos diffyg addysg gynhwysfawr am y 'fasnach gaethweision', y rhai a fy yn ymwneud â chynnal busnes mor ddrygionus, a'i effaith ar bobl dduon. Efallai y bydd pobl yn dweud bod gweithredoedd fel y rhain yn ceisio ail-ysgrifennu hanes. Nid ydynt o gwbl, yr hyn maen nhw'n ei wneud yw atal gweithredoedd erchyll rhag cael eu gogoneddu.

Bellach mae galw am gael gwared â cherfluniau eraill, fel un Christopher Columbus, ym Mharc Sefton, oherwydd eu cysylltiadau â'r 'fasnach gaethweision'. Yn fy addysg, yn Lerpwl, ni chefais fy nysgu erioed am gysylltiadau Columbas â'r fasnach mewn bodau dynol. Yng Nghaerfyrddin mae galwadau i gael gwared ar gerflun Thomas Picton. Nid oeddwn yn gwybod bod ganddo gysylltiadau â'r fasnach gaethweision er imi gerdded heibio ei heneb bron bob dydd yn fy mlwyddyn gyntaf yng Ngholeg y Drindod.

Mae pobl yn anwybodus am faterion o'r fath, heb unrhyw fai arnyn nhw eu hunain. Rydyn ni'n tueddu i ddilyn yr hyn rydyn ni wedi ei ddysgu.

Faint ohonoch chi a ddysgodd yr hwiangerdd ganlynol pan yn blentyn a faint ohonoch sydd wedi'i ganu i'ch plant a'ch wyrion. Fe ddysgodd fy mam a fy nain hi i mi, a sut i'w chanu.

*Dacw mam yn dwad ar ben y Gamfa Wen,*
*Rhywbeth yn ei ffedog, a phiser ar ei phen.*
*Y fuwch yn y beudy yn brefu am y llo,*
*A'r llo'r ochor arall yn chware Jim Cro*
*('gweiddi Jim Cro' roedd mam yn dweud)*

*Cytgan:*
*Jim Cro Crystyn, Wan, tŵ, ffôr,*
*A'r mochyn bach yn eistedd mor ddel ar y stôl.*

Mae'n swnio fel hwiangerdd hollol dderbyniol ar wahân i'r cyfeiriad at 'Jim Cro', sydd â chysylltiadau hiliol. Roedd y term 'Jim Crow', yn yr Unol Daleithiau wedi dod yn derm difrïol i Americanwyr Affricanaidd erbyn 1838 ac o hyn daeth deddfau gwahanu hiliol yn ddeddfau 'Jim Crow'.

Roedd 'Jim Cro' yn gêm gardiau a oedd yn boblogaidd gyda glowyr Cymreig y buont yn eu chwarae am arian yn ystod amser cinio. Roedd yn debyg i'r gêm gardiau 'Old Maid' neu'r gêm Almaeneg 'Schwarzer Peter' neu 'Black Peter' a oedd yn aml yn defnyddio cerdyn yn darlunio dyn du fel yr un nad oeddech chi ei eisiau, y collwr.



Mae cyfeiriad arall yn llenyddiaeth Cymraeg yn y gân Gwenno Penygelli.

*Mae gen i het Jim Cro*
*Yn barod i fy siwrne*
*A 'sgidia o groen llo*
*A gwisg o frethyn cartre'*

Yn y llyfr 'Mynydd Parys' gan Owen Griffiths (1898) mae yn disgrifio'r 'Merched Copr' ac yn dweud 'Roedd y menywod yn ddieithriad yn gwisgo het 'Jim Cro' ac o dano sgarff smotiog yn gorchuddio'r pen, y gwddf a'r rhan fwyaf o'r wyneb.' fel y gwelir yn y llun isod.

Roedd het 'Jim Cro' yn debyg i'r het a wisgid gan y cymeriad 'Jim Crow' a grëwyd gan y diddanwr gwyn Thomas Dartmouth Rice (1808-1860) Roedd Jim Crow yn act canu a dawns a fodelwyd yn ôl pob tebyg ar ôl caethwas, gyda Rice yn tywyllu ei wyneb, yn gweithredu fel byffoon, ac yn siarad â dynwarediad gorliwiedig ac ystumiedig o Saesneg Cynhenid Americanaidd Affricanaidd.






Nid ddylid parhau i ganu'r caneuon hyn mewn gwirionedd ond byddai'n drueni iddynt ddadrithio'n gyfan gwbl. Efallai y gellid defnyddio fersiynau wedi'u hail-eirio fel

*Y fuwch yn y beudy yn brefu am y llo*
*A'r llo yr ochr arall yn chwerthin Ho Ho*
*Jam ar grwstyn*
*Nawr does dim ar ôl.*
*A'r mochyn bach yn eistedd mor ddel ar y stôl.*

Ac hefyd cael pennillion ychwanegol

*Dafi bach a finna yn mynd i Aberdâr,*
*Dafi'n mofyn ceiliog, a finna'n mofyn giâr,*
*Dafi bach a finna yn mynd i ffair Llannonn,*
*Dafi'n hela dimai a finna'n prynu ffon.*
(Cytgan)

*Shoni brica moni yn berchen buwch a llo,*
*A gafar fach a mochyn a cheiliog go-go-go.*
*A cheiliog bach y dandi yn crio trwy y nos*
*Eisie benthyg ceiniog i brynu gwasgod goch.*
(Cytgan)

Yn y gorffennol nid oedd pobl mor gyfarwydd â'r syniad o 'hiliaeth'. Arferai fy nhaid ysgrifennu barddoniaeth a dim ond un brawddeg ohono sydd gennyf yn fy meddiant sef y frawddeg:

*'Daeth Dyn Du Drwy Dol-rhedyn Dan Diwnio'i Delyn'.*

Nid wyf yn credu y byddai hynny'n dderbyniol y dyddiau hyn.

Rydym ni, gobeithio, yn gwybod yn well, a chydag ychydig o feddwl y dylem allu addysgu ein plant yn well am hiliaeth, ddoe a heddiw.

***David Williams (Karslake).***

Hydref 2020.qxp_Layout 1 09/09/2020 16:39 Page 10

# *Myfyrdod Dwys iawn o Maerdy ac Aberfan*

Fel pob Ysgrifennydd Eglwys roedd gennyf ddau lyfr bach coch, sef un i gadw cyhoeddiadau Sul Gweinidogiuon y Gair a'r llyfr bach arall gyda fy nghyhoeddiadau personol. Prin oedd gweinidogion ac un ffordd o gael gweinidog oedd i wneud "swop" ac roedd yn gweithio. Edrychaf – Hydref 23, 1966, Eglwys Ebeneser, Maerdy, Rhondda 10-30 a 6 o'r gloch. Dim byd syfrdanol OND roeddwn yn reit digalon yn mynd i fyny yr hen gwm Rhondda. Chi'n gweld roeddwn yn Ysgol Aberfan at fy hanner mewn sbwriel, mwd, slurry a glo mân gyda rhaw yn "chwilio a gobeithio" mewn dosbarth heb nenfwd tan 3 o'r gloch y bore, y nos Wener cynt, am anwyliaid, a'r glaw yn syrthio'n ddibaid a llawer tro edrychais i fyny drwy'r "arch lights" a gofyn i Dduw fod yn drugarog!! Serch hyn doeddwn ddim yn ddig wrth y Duw mawr oherwydd yn nrysni bywyd roedd "enfys Duw sy'n para i ddatgan bydd goleuni yn yr hwyr". Does dim modd cael geiriau i ddisgrifio'r trychineb erchyll o bob creulondeb a minnau yn 91 oed, heddiw, mae'r profiad yn fyw ynof.

Diolch bod yna beiriannau a thractorau yn ceibio'n well na rhai fel fi gyda fy rhaw a diolchaf i fy nhad oedd yn löwr ei hun am fy nysgu sut i ddefnyddio rhaw yn yr allotment. Ar adegau ein "Town Crier yn gweiddi am SILENCE QUIET a phob peiriant yn ddistaw, y lleisiau'n fud, y clustfeinio ymroddgar yn "y dwys distawrwydd, dywed air fy Nuw" fod yna gri o fywyd, ond na ac wedyn cario ymlaen. Yn wyrthiol fe gawsom wagle fach ond dim lwc, er fe glywsom wedyn bod yna ddau blentyn yno wedi marw ac yn gafael yn llaw ei gilydd ac fe godais pêl fach a tholc ynddi. Meddyliais am fy mhlentyndod fu hun wrth fynd oddi yno, ac yn wir yn teimlo mor ddiymadferth i helpu. Yr unig beth ddywedais wrth fy ffrindiau gan eu bod yn gwybod am fy nghrefydd "I can offer no excuses, no reasons, no whys except to say that I sincerely care and feel for them tonight in Aberfan." "Os daw gofid a thywyllwch, gwena drwyddynt oll yn llwyr ACHOS bydd goleuni yn yr hwyr."

Fe es i'r Maerdy ac fe bregethais ar Ffordd Jericho, man a anfarwolodd Grist y lle. Yno roedd yna gardotyn Bartimeus un o'r "isel rai" ac hefyd Zacheus un o'r "uchel rai" ac mewn bywyd roedd rhai i fyny ac rhai i lawr fel yn Aberfan. Roedd ardaloedd y cymoedd glo yn gwybod am hyn – cofio Tom Morgan yn cael ei gario ar gefn drws fel *stretcher* a rhywun yn dweud "fe gaiff ei wraig compo". Beth ydy'r ateb? Ie, eitha reit COMPO RHAGLUNIAETH DUW sy'n gwastadeiddio anghyfartaledd bywyd ac yn unioni unrhyw gam yn y cread. Cofiaf Nain, un o ŷd y wlad Tan y Grisiau, Blarnau Ffestiniog roedd yn wastad yn dweud "Dydy Duw ddim yn gofyn am ddim gennyf ond fy ffydd ac o hynny fe gaiff y cwbwl". Fe adewais y Maerdy gyda phob hyder mai beth bynnag oedd ar dro bod DUW yno'n gyntaf.

***Elwyn***

## *GAIR BYR I'R DARLLENWYR, CYFRANWYR, DOSBARTHWYR A THEULU'R ANGOR*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** – Dyma eitem i godi'n calonnau, ac ym mhob rhifyn cawn golofn haeddiannol o haelionus. Daliwch i gynnal y papur bro unigryw hwn trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl / Liverpool L19 4UA. Bydd eich cyfraniad yn cael ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn *Yr Angor*.
- ***Pris Yr Angor.*** Am eleni eto yr un pris. Anhygoel. Dim ond £11.00 trwy'r post, trwy'r capeli a'r cymdeithasau £5. Cyfle i hysbysebu am £2, tudalen gyfan £60, hanner tudalen £30.
- **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**
- **Rhifyn Tachwedd 2020** erbyn bore Iau, 1 Hydref 2020 – lluniau, adroddiadau, llythyron, cyfarchion, hysbysebion i garthdriveben@gmail.com
- **Rhifyn Rhagfyr 2020/Ionawr 20121** – erbyn bore Sul, 1 Tachwedd, 2020 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i'r cysodydd pnawn Llun, Tachwedd 2.
- **Rhifyn Chwefror 2021 –** erbyn bore Gwener, 1 Ionawr 2021, gan ein bod am bostio'r amlen pnawn Llun, 4/1/2021 am 1.00 o'r gloch i Lanuwchllyn.
- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno yn gyson, byddwn yn gobeithio gosod mwy o luniau yno yn y dyfodol agos).
- **Croeso – eich llythyron ac ambell erthygl i'r Golygydd cyn 1/10/2020.**

**Daliwch i swatio a darllen Yr Angor**

## MERSEYSIDE WELSH HERITAGE SOCIETY

# *APPEAL 2020 AND 2021*

***prepared by Dr. D. B. Rees (Chairman/Author), Rachel Gooding (Treasurer) and Dr. Arthur Thomas (Secretary)***

**LIVERPOOL WELSH: A REMARKABLE HISTORY.**

Gwasg Y Lolfa, Talybont has given us the good news that the volume *Liverpool Welsh: A Remarkable History* will be in the booksellers summer 2021, so we have time to achieve the goal of £7,500 by 1 May, 2021.
We are so grateful for List 6 as we had received by 30 July the sum of £2,660. Every donation will be gratefully received and acknowledged in the book by inserting your name and a gift will ensure you a copy of a hard back volume. It will be signed and you will be invited to the launching of the book in May 2021.

**List one: £550; List two: £450; List 3: £200;
List 4: £420; List 5: £510**

**LIST SIX (1/7/2020 i 31/8/2020)**

1) Clifford and Myfanwy Owen, Llanfairfechan the sum of......£50
2) N. Harrison, Morton Dairies Ltd, Maghull the sum of .........£50
3) Eurfryn and Sian Arwel Davies, Llandegfan,
Ynys Môn y swm o ............................................................£35
4) Trevor H. Jones, Bala (late of Liverpool) the sum of...........£50

**Total / Cyfanswm.................................£185**

So we have reached the sum of £2,845

***Please assist as soon as it is possible for with your help we will get to our goal of £7,500
Can you please send your donations to
Merseyside Welsh Heritage Society /
Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi
c/o 32 Garth Drive, Liverpool L18 6HW.***

Hydref 2020.qxp_Layout 1 09/09/2020 16:39 Page 11

# BYW DAN GYSGOD PANDEMIG –

## argraffiadau hanesydd llên

A ninnau yn ystod y misoedd diwethaf hyn wedi byw dan gysgod y pandemig byd-eang gwaethaf ers canrif, byddai'n dda inni ein hatgoffa ein hunain fod sawl haint peryglus wedi taro'r ddynoliaeth yn ystod cwrs hanes. Dros chwe chanrif yn ôl ymledodd y Pla Du gan ladd traean poblogaeth Ewrop o fewn cyfnod o dair blynedd, ac ailymddangosodd yn ysbeidiol wedi'r ymweliad marwol mwyaf niweidiol hwnnw yng nghanol y bedwaredd ganrif ar deg. Yn wir, clywir am achosion o'r Pla Du mewn rhai rhannau o'r byd heddiw. Ddechrau'r haf eleni, er enghraifft, bu achos yng ngogledd China, ond fe'i rheolwyd yn gyflym gan fod modd ei drin â gwrthfiotigau.

Tua diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg, lluniodd y bardd Thomas Evans o Hendreforfudd ger Corwen yr englyn canlynol i goffáu dyfodiad y pla yn y flwyddyn 1349:

*Marwolaeth a wnaeth Duw naf – enwedig*
*Pan fu'r nodau gyntaf;*
*Mil trichant, gwarant a gaf,*
*Naw a deugain y dygaf.*

Mae dau beth i sylwi arnynt yn yr englyn hwn. Y peth cyntaf yw'r cyfeiriad at Dduw yn achosi'r farwolaeth fawr. Gan nad oedd gan bobl yr wybodaeth feddygol sydd gennym ni i allu esbonio tarddiad ac achos y pla, tueddid i'w esbonio fel cosb gan Dduw am bechodau dynion, fel yn yr Hen Destament. Yr ail beth yw'r cyfeiriad at y 'nodau'. 'Haint y nodau' oedd un o'r enwau a ddefnyddid yn Gymraeg i gyfeirio at y pla biwbonig, am fod ei ôl yn weladwy ar y corff. Un o'i symptomau amlwg oedd chwydd yn y chwarennau lymff o dan y gesail, yng nghesail y forddwyd, neu yn y gwddf.

Yn 1894 y darganfu'r bacteriolegydd o Ffrainc, Alexandre Yersin (1863–1943), mai bacteriwm a achosai'r Pla Du. Ar ei ôl ef y gelwir yr haint yn *Yersinia pestis*. Mae'n facteriwm hynod heintus a pheryglus sy'n ymosod ar y system imiwnedd trwy arllwys gwenwyn i gelloedd amddiffynnol y corff, sydd fel rheol yn gwarchod rhag unrhyw heintiau niweidiol a marwol. Unwaith y lleddir y rheini, gall y bacteria ymledu'n gyflym. Fel y gwyddys, chwain sy'n byw ar famaliaid sy'n lledaenu'r bacteriwm. Llygod mawr a gludai'r chwain hyn ac a ledaenai'r Pla Du yn y bedwaredd ganrif ar ddeg.

Yr hyn sy'n ddiddorol i hanesydd llên fel fi yw fod gennym gerddi Cymraeg o'r bedwaredd ganrif ar ddeg a'r bymthegfed sy'n cyfeirio at effeithiau marwol yr haint. Un o'r cerddi hynny yw'r farwnad a ganodd Llywelyn Fychan i bump o'i blant a fu farw o'r pla. Er bod galar y tad ar eu hôl yn ein cyffwrdd, yr hyn sy'n drawiadol yn y gerdd yw'r disgrifiad a geir o'r lympiau chwyddedig a'r staeniau duon ar gyrff y plant. Dyma dystiolaeth na cheir braidd ei thebyg mewn llenyddiaethau eraill. Defnyddia'r bardd ei ddyfeisgarwch wrth fynd ati i ddelweddu'r chwydd crwn ar y cnawd fel 'swllt mewn cyswllt cesail', fel lwmp ar ffurf 'afal llawn o ofid', a lwmpyn ac iddo siâp fel pen nionyn. Ond mae un disgrifiad sy'n cynnwys delwedd drawiadol a hynod effeithiol i gyfleu siâp ac ymddangosiad y chwyddi yn y llinell hon: 'Dimeiau, gemau gwymon'. Y 'gemau gwymon' hyn yw'r swigod a geir ar wymon y môr, sef yr hyn a elwir yn Saesneg yn *seaweed floats,* sy'n cyfleu i'r dim ffurf yr hyn a elwid yn Lladin yn *bubo*, sef symptom mwyaf gweladwy'r Pla Du.



Bleddyn Owen Huws

Yn aml iawn, nid oedd gan ein cyndeidiau ddim amddiffynfa yn erbyn heintiau ond gweddïo ar Dduw yn y gobaith o gael eu harbed, neu os caent eu heintio, gweddïo am gael eu hiacháu. Pan ailymwelodd haint y nodau yn y bymthegfed ganrif canodd y bardd Dafydd Llwyd o Fathafarn gywydd marwnad i'w ferch ei hun a fu farw o'r pla. Er i lawer o bobl fynd i'r eglwys i weddïo drosti am iachâd, cwbl ofer fu'r ymdrech. Yr hyn sy'n drawiadol eto ynghylch y gerdd hon yw fod y bardd yn cynnig inni ddarlun manwl iawn o symptomau'r pla. Trwy gyfrwng delwedd a chymhariaeth llwydda'r bardd hwn hefyd i ddarlunio'r blotiau tywyll ar gnawd y claf, gan alw i gof inc yn staenio papur a chylchoedd fel staen mwyar duon:

*Ysgrifen chwarren a'i chwys*
*Yn lliwio dan ei llewys,*
*A hefyd i gyd ei gwar,*
*Dimeiau fel nod mwyar.*

Nid cerdd brotest sydd yma, ond marwnad sy'n mynegi realiti colled anorfod. Wyneb yn wyneb â'r pla difaol ni allai'r bardd wneud dim ond derbyn y Drefn. Dyna lwcus yr ydym ni fod gwyrthiau meddygaeth fodern a'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol yma i ofalu amdanom ac i'n hiacháu.

*Bleddyn Owen Huws,*
*Prifysgol Aberystwyth.*

# CORNEL Y TRYSORYDD



## HYDREF 2020

| | |
|---|---|
| Mrs Menai Roberts, Newcastle | £25.00 |
| Mr Dafydd Meirion Jones, Yr Wyddgrug | £15.00 |
| Mrs Eirwen Sergent, Penbedw | £25.00 |
| Mr a Mrs Geraint Evans, Amlwch | £12.00 |
| Mr David Williams, Biggleswade | £36.00 |
| Mrs Eryl Chitty, Gateacre | £20.00 |
| Mrs Beryl Jones, Welwyn Gdn. City | £100.00 |
| Mrs Anne Jones, Allerton | £50.00 |
| Mrs a Mrs Glyn Davies, Rhuthun | £25.00 |

**Cyfanswm £308.00**

**Roderick Owen (Trysorydd)**

# BEDD PRIF WEINIDOG

Dyma'r fynedfa at fedd David Lloyd George (1863-1945), un o'r Prif Weinidogion galluocaf a welodd Prydain. Er ei eni yum Manceinion, ym mhentref Llanystumdwy y treuliwyd plentyndod a llecyndod y gŵr amryddawn hwn ac yn ôl yma y daeth yn 1945 i orffwys wedi gyrfa liwgar a dylanwadol.


Fe'i magwyd gan ei ewythr, Richard Lloyd, crydd y pentref ac athronydd a diwinydd di-goleg. Rhoddodd Richard Lloyd seiliau cadarn mewn radicaliaeth ac Ymneilltuaeth i David Lloyd George a'i frawd William George.


Llwyddodd y ddau frawd i ddod yn gyfreithwyr ym Mhorthmadog, a chyda cefnogaeth ei frawd, enillodd David Lloyd George sedd seneddol Bwrdeisdrefi Sir Gaernarfon ym 1890 ac fe'i cadwodd hyd ddiwedd ei oes hir fel gwleidydd. Meddai Lloyd George ar allu anhygoel, ynni a gweledigaeth o fyd gwell, a gosododd seiliau y Wladwriaeth Lês yn ystod ei gyfnod fel Canghellor y Trysorlys.

Nid anghofiodd ei wreiddiau yn Llanystumdwy a bellach daeth y pentref hwn sydd ar y ffordd rhwng Cricieth a Phwllheli yn ganolfan i edmygwyr Lloyd George. Yno y mae amgueddfa i'w goffáu ac yno hefyd mae bedd y gwron a gofiodd y werin bobl.




*Safle bedd David Lloyd George*



*David Lloyd George*



*Pentref Llanystumdwy*

***Ariennir Yr Angor***
***yn rhannol***
***gan Lywodraeth Cymru***

CYMRAEG

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15.*
*Cysodwyd ac argraffwyd gan*
*Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn,*
*Y Bala, Gwynedd LL23 7UH*
*07729 960484*